

Taflen waith cyfansoddi 4: GWEAD

Anitra's Dance o Peer Gynt Suite, gan Edvard Grieg

ENW:

Dyddiad:

Yn eich gwerthfawrogiad a'ch dadansoddiad o 'Anitra's Dance' gan Grieg, fe welwch fod y gwead yn **homoffonig yn bennaf** a ddim yn rhy gymhleth. Mae'r alaw yn dominyddu dros y cordiau. Fodd bynnag, mae rhannau cyferbyniol wedi'u hysgrifennu ar gyfer y llinynnau sy'n ychwanegu diddordeb at y gwead yn y cyfeiliant. Gwneir defnydd cynnil hefyd o efelychiant.

Er enghraifft, gellir dod o hyd i'r ddau syniad canlynol yn Adran B:

Feiolin 1 + Sieloau Feiolin 2 + Fiola 	Feiolin 1 Fiola 
Lle mae dod o hyd iddo?	Lle mae dod o hyd iddo?

Yn eich cyfansoddiad eich hun, bydd defnyddio amrywiaeth o weadau (wedi'u trefnu a'u rheoli yn dda ac yn ofalus) yn sicr yn helpu i wella'r canlyniad – a'ch marciau!

Meddyliwch am yr awgrymiadau canlynol. Ystyriwch rai o'r ffyrdd y gellir cyflwyno syniad melodig. Mae'r enghreifftiau hyn yn defnyddio'r syniad agoriadol o 'Anitra's Dance'.

Monoffonig	Homoffonig
	

Taflen waith cyfansoddi 4: GWEAD

Anitra's Dance o Peer Gynt Suite, gan Edvard Grieg

Polyffonig (Efelychiant)



Ychwanegu llenwad at ddiwedd brawddeg



Ailadrodd syniadau ar draw gwahanol



Gosod syniadau mewn cord gwahanol



Ychwanegu cyfalaw gan ddefnyddio syniadau o'r gwreiddiol



Efallai y gallech chi berfformio rhywfaint o'r rhain yn y dosbarth i'ch helpu chi i glywed y mathau gwahanol o wead ac effeithiau.



3 rhan, caniadau efelychol gan ddefnyddio'r un nodau, wedi'u hestyn gyda chyfalawon, pob un uwchben cordiau tonydd a llywydd A leiaf, gan orffen â diweddeb berffaith yn A leiaf o hyd.

Taflen waith cyfansoddi 4: GWEAD

Anitra's Dance o Peer Gynt Suite, gan Edvard Grieg

Nawr, penderfynwch ar alaw rydych chi'n barod wedi'i hysgrifennu. Mae'n syniad da dechrau â brawddeg gryf, argyhoeddiadol. Copïwch eich syniad isod.

Meddylwch am rai o'r awgrymiadau o ran amrywio'r gwead a amlinellir uchod, yna gweithiwch yn yr un ffordd gyda'ch alaw chi.
